



Goruchwyliaeth, cymorth
a diogelwch: Adroddiad
Blynyddol yr Awdurdod
Goruchwyllo Lleol (AGLL)
Yn cynnwys Adroddiad
Archwilio Blynyddol Awdurdod
Goruchwyllo Lleol Cymru

1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

2015-
2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad a Chefndir Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni	3
AGLI Cymru	4
Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI	5
1. Darparu goruchwyliaeth effeithiol	6
1.1 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwyllo statudol	7
1.2 Y gymhareb o Oruchwylwyr Bydwagedd i Fydwagedd 1.3 Tabl 1 – Cymhareb goruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd mewn byrddau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016	8
1.4 Penodi goruchwylwyr bydwagedd, dad-ddethol, ymddiswyddo a chaniatâd i fod yn absennol	9
1.5 Datblygiad proffesiynol parhaus goruchwylwyr bydwagedd	10
1.6 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylwyr bydwagedd	11
2. Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o oruchwyllo 2.1 Adroddiad Blynyddol yr AGLI ar gyfer 15-16 – Cyfraniad adolygwyr lleyg i oruchwyliaeth a baratowyd gan adolygwyr lleyg yr AGLI	13
2.2 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI	16
2.3 Crynodeb o amddiffyn y cyhoedd, cyd-destun a chanfyddiadau 2.4 Ymgysylltu â sefydliadau addysg cymeradwy	17
3. Ymarfer bydwagedd yn y dyfodol 3.1 Diddymu goruchwyliaeth bydwagedd o'r statud 3.2 Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan	19
3.3 Pecyn e-ddysgu monitro ffetws RCOG 3.4 Strategaethau a dangosyddion mamolaeth	20
3.5 Rhaglen De Cymru 3.6 Chwilio gorwelion	21
3.7 Polisiâu lleol a chenedlaethol yn ymwneud â goruchwyliaeth	22
4. Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimaidd 4.1 Gwella'r broses o gynnal ymchwiliadau goruchwyllo 4.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwyllo	25
5. Arfer nodedig ac arloesol	26
5.1 Rhannu arfer da	27
5.2 Materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn 2016-17 ac edrych i'r dyfodol	29
Atodiad 1 – Cymhareb Gyfwerth â Goruchwyllydd Bydwagedd yng Nghymru Model Newydd Tabl 1 – Cyfrifiadau Byrddau Iechyd Penodol wedi'u Diweddarau – Chwarter 4, 2015-16	31

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn ar gyfer 2015 – 2016 ar sicrwydd ansawdd Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru (AGLIC). Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar ran Gweinidogion a dinasyddion Cymru ac felly mae'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwaig yn cael ei chyflawni i safon foddhaol ledled Cymru. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gweithgareddau goruchwylio yn ystod 2015-2016, yn ogystal ag edrych ymlaen at ddyfodol goruchwylio bydwagedd yng Nghymru a dathlu'r llwyddiannau a gyflawnwyd.

Ym mis Awst 2014, cyflwynodd yr AGLI fodel arloesol ar gyfer darparu goruchwyliaeth bydwreigiaeth statudol, ar ôl nodi bod angen datblygu er mwyn sicrhau bod ei swyddogaeth statudol yn cael ei chyflawni mewn modd diogel ac effeithiol. Yn y ddwy flynedd ers ei sefydlu, mae'r model goruchwylio newydd wedi'i ymgorffori'n llwyr yn y gwasanaethau mamolaeth ar draws Cymru ac mae'n cael ei werthfawrogi.

Mae agweddau o'r model wedi'u cydnabod fel arfer da, yn cynnwys cyflwyno goruchwyliaeth grŵp. Mae'r llwyddiant hwn wedi derbyn cydnabyddiaeth ym mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru "Ein Hiechyd – Ein Gwasanaeth Iechyd", a thrwy gyhoeddi'r gwerthusiad o oruchwyliaeth grŵp yn y *British Journal of Midwifery*. Ymhlith y mentrau eraill i'w dathlu mae datblygiad Pasbort Preceptorïaeth Cymru Gyfan, sy'n cynorthwyo bydwagedd sydd newydd gymhwyso o fewn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, a dogfen Adolygiad Goruchwylio Blynyddol i gynorthwyo bydwagedd ar gyfer y newid i ailddilysiad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r ddwy ddogfen hyn wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Cyngori Penaethiaid Bydwreigiaeth i'w defnyddio ar draws Cymru gyfan, ac fe'u cyflwynwyd ymhob bwrdd iechyd yn 2016.

Mae yna ddiddordeb mawr ar draws y DU yn y model goruchwyliaeth sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, ac mae'r AGLI wedi parhau i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i ddarparu sicrwydd bod goruchwyliaeth bydwreigiaeth yn cael ei darparu'n gyson ac i safon uchel.

Gan edrych i'r dyfodol, ni fydd yr AGLI a goruchwyliaeth yn parhau yn rhan o deddfwriaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi sefydlu tasglu er mwyn trosglwyddo goruchwylio bydwagedd i fodel sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr, er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd yn parhau i gael dylanwad ac yn cefnogi rhagoriaeth mewn ymarfer bydwreigiaeth. Yn y cyfamser, rwy'n hyderus bod yr AGLI mewn sefyllfa dda i gynnal y gwaith o ddarparu goruchwyliaeth bydwreigiaeth statudol tra bydd y newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud.



Kate Chamberlain – Prif Weithredwr

Cyflwyniad a Chefndir

Er mwyn sicrhau ymarfer bydwreigiaeth diogel ac effeithiol, mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001,¹ gynnal cofrestr o fydwagedd cymwysedig, a sefydlu rheolau a safonau o fedrusrwydd.

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 hefyd yn cyflwyno gofynion statudol bod pob bydwraig yn destun goruchwyliaeth. Diben sylfaenol goruchwyliaeth yw gwella amddiffyn menywod a babanod trwy hyrwyddo a chefnogi safonau diogel o ymarfer bydwreigiaeth mewn ffordd weithredol.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n cyflawni swyddogaeth Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru. Mae'n gyfrifol felly am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwraig, fel sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) a Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012), yn cael eu harfer i safon foddhaol ledled Cymru.

Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni


Mae gan Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru gyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- Bod ar gael i fenywod os ydynt yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar eu gofal bydwreigiaeth y maent o'r farn na roddwyd sylw iddi trwy sianelau eraill
- Darparu fframwaith o gefnogaeth ar gyfer ymarfer goruchwyllo a bydwreigiaeth
- Derbynn data Bwriad i Ymarfer ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer yn yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol
- Sicrhau bod pob bydwraig yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ymarfer
- Darparu datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr
- Ymchwilio i achosion o gamymddwyn honedig neu ddiffyg cymhwysedd
- Penderfynu a ddylid gwahardd bydwraig rhag ymarfer, yn unol â Rheol 14² Rheolau a Safonau Bydwagedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012)
- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth

¹ Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Y Gorchymyn).

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2002/253/contents/made>

² Rheol 14 rheolau a safonau bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn ymwneud â gwaharddiad ymarfer gan awdurdod goruchwyllo lleol.



Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Er mwyn ei galluogi i ddarparu yn unol â'r cyfrifoldebau uchod, mae AGIC wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth sy'n gyfrifol am wneud y canlynol ar ran AGIC:

- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth ar draws yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Penodi Goruchwylwyr Bydwagedd
- Darparu cyswllt ffurfiol rhwng bydwagedd, goruchwylwyr bydwagedd a'r cyrff statudol
- Darparu fframwaith ar gyfer cefnogi goruchwyliaeth bydwagedd ac ymarfer bydwreigiaeth o fewn ei ffin
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a hwyluso rhaglenni paratoi goruchwylwyr bydwagedd, a'u datblygu'n barhaus
- Sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd yn gallu bodloni'r cymwyseddau a nodir yn y Safonau ar gyfer Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd [(Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd) Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2014]³
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a hybu gwaith partneriaeth gyda menywod a'u teuluoedd.

Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynrychioli AGLI Cymru yn fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y Deyrnas Unedig (DU), a chyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI, gan sicrhau bod materion a safbwyntiau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn gyfrifol hefyd am gynnal perthynas waith dda â Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am bolisïau mamolaeth, Prif Swyddog Nyrsio Cymru, y Cynghorydd Proffesiynol ar Fwrdd Cymru Coleg Brenhinol Bydwagedd y DU, Penaethiaid Grŵp Cynghori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan, a'r Grŵp Bydwagedd Arweiniol ar gyfer Addysg yng Nghymru.

Mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth ar draws byrddau iechyd ac ardaloedd daearyddol penodol Cymru wedi'i roi i Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI, fel y nodir isod:

Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, Sue Jose, yn gyfrifol am:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

³ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2014, Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwagedd
<http://www.nmc.org.uk/globalassets/siteDocuments/NMC-Publications/NMC-Standards-for-preparation-of-supervisors-of-midwives.pdf>

Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, Maureen Wolfe, yn gyfrifol am:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Cwblhaodd Julie Richards ei daliadaeth benodedig ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru, ac fe ddychwelodd i'r GIG ym mis Medi 2015. Hoffai'r AGLI ddiolch i Julie am ei gweledigaeth a'i harweinyddiaeth yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI. Maureen Wolfe yw olynnydd Julie fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a dechreuodd ei swydd yn llawn amser ar 14 Ionawr 2016. Yn flaenorol, bu Maureen yn oruchwylydd bydwagedd llawn amser yng Nghymru, cyn ei phenodiad fel Swyddog Bydwreigiaeth gyda'r AGLI.

1. Darparu goruchwyliaeth effeithiol

Prif ddiben goruchwyliaeth statudol yw diogelu menywod, babanod a'u teuluoedd. Mae model goruchwyliaeth statudol Cymru, a gyflwynwyd ym mis Awst 2014, yn sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yn cyflawni eu gofynion statudol, yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) 2001 a rheolau a safonau Bydwagedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012).

Mae model Cymru yn hyblyg ac yn penodi goruchwylwyr bydwagedd yn ôl y nifer o fydwragedd sydd angen goruchwyliaeth. Penodir darpar Oruchwylwyr Bydwagedd ym mhob Bwrdd Iechyd, a fydd yn camu i'r rôl yn ôl yr angen, er mwyn darparu goruchwyliaeth effeithiol a chyflawni'r gofynion statudol. Mae'r goruchwylwyr bydwagedd yn ymroddedig yn bennaf i'r rôl oruchwylio, gan gynyddu eu hamlygrwydd a'u hygyrchedd i fydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth.

Cyflwynir adroddiad chwarterol ar ddarparu, cyflawni ac asesu risg goruchwyliaeth bydwagedd i randdeiliaid allweddol, yn cynnwys adolygwyr lleig yr AGLI. Mae adroddiad chwarterol yn cael ei baratoi yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- **DPA 1** Yr AGLI i adolygu a diweddarau rhagolygon cynllunio'r gweithlu
- **DPA 2** Bydd cronfa ddata'r AGLI yn cael ei defnyddio i fonitro cwblhad goruchwylwyr bydwagedd o'r cynllun datblygu proffesiynol perthnasol
- **DPA 3** Bydd gan 100% o oruchwylwyr bydwagedd adolygiad goruchwylio blynyddol ac adolygiad perfformiad unigol sefydliadol
- **DPA 4** Bydd 100% o fydwragedd yn cydymffurfio â'r broses Adolygu Goruchwylio Blynyddol – hap-archwiliadau o ansawdd gan yr AGLI
- **DPA 5** Bydd 100% o fydwragedd dan hyfforddiant yn gallu cadarnhau eu bod wedi cyfarfod â goruchwyllydd bydwagedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn

- **DPA 6** Bydd 100% o fydwragedd sydd newydd gymhwyso yn cyfarfod â goruchwyllydd bydwragedd o leiaf ddwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith o fewn blwyddyn i gytuno a monitro rhaglen preceptoriaeth
- **DPA 7** Cadw a storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd (Storio diogel)
- **DPA 8** Hap-archwiliadau o amseroedd ymateb ar-alwad goruchwylwyr bydwragedd – asesu tueddiadau a themâu er mwyn llywio datblygiadau gwasanaeth
- **DPA 9** Monitro prydlondeb ac ansawdd yr holl broses ymchwilio

1.1 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwyllo bydwragedd

Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd yn Lloegr⁴ (PHSO), eu canfyddiadau ar ôl cwblhau tri ymchwiliad i gwynion gan dri theulu a oedd yn ymwneud â goruchwyllo a rheoleiddio bydwragedd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Morecambe Bay. Roedd adroddiad y PHSO yn cynnig newid i'r system o reoleiddio bydwragedd, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- Y dylid gwahanu goruchwyllo a rheoleiddio bydwragedd
- Y dylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gymryd rheolaeth uniongyrchol dros weithgarwch rheoleiddiol.

Ym mis Ionawr 2015, cyflwynwyd adolygiad gan y Kings Fund,⁵ a gomisiynwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a oedd yn argymhell y dylai'r Cyngor gymryd rheolaeth ac atebolrwydd uniongyrchol dros y swyddogaeth graidd o reoleiddio. Argymhellir hefyd y dylid dileu strwythur yr AGLI o'r statud am ei fod yn ymwneud â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y Cyngor yn derbyn argymhellion yr adroddiad yn llawn. Cafwyd cyhoeddiad gan y Gweinidog Gwladol dros Iechyd ar 16 Gorffennaf 2015 y bydd y llywodraeth yn newid y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu rheoleiddiad bydwragedd. Prif effaith y newidiadau yw y bydd goruchwyllo bydwragedd yn cael ei ddileu o ddeddfwriaeth reoliadol. Mae'n debygol y bydd y ddeddf newydd yn cael ei phasio erbyn mis Ebrill 2017.

O ganlyniad i'r newid arfaethedig i ddeddfwriaeth, cynhyrchwyd dogfen gan yr Adran Iechyd⁶ (2015) "Proposals for changing the system of midwifery supervision in the UK". Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r ddadl bod yn rhaid i oruchwyllo statudol barhau ar ei ffurf bresennol hyd nes y bydd y ddeddf yn newid, wrth baratoi model goruchwyllo bydwragedd yn y dyfodol. Bydd y model ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar yr

⁴ Adroddiad PHSO 2013

http://www.ombudsman.org.uk/__data/assets/pdf_file/0003/23484/Midwifery-supervision-and-regulation_-recommendations-for-change.pdf

⁵ The King's Fund (2015) Midwifery Regulation in the United Kingdom

⁶ Cynnig yr Adran Iechyd ar gyfer newid y system rheoleiddio bydwragedd yn y DU

<https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-midwife-supervision-in-the-uk/proposals-for-changing-the-system-of-midwifery-supervision-in-the-uk>

egwyddorion y bydd system gyffredinol goruchwylio bydwagedd yn cael ei llunio a'i gweithredu ar ôl dileu'r goruchwylio statudol. Bydd hyn yn darparu goruchwyliaeth glinigol i fydwagedd mewn ymarfer clinigol ac adolygiad cymheiriaid i fydwagedd nad ydynt yn gweithio mewn ymarfer clinigol. Bydd y system newydd yn fodel proffesiynol sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ganolbwyntio ar ei swyddogaeth reoliadol (yn cynnwys aiddilysu), er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Ym mis Chwefror 2015, bu i'r Prif Swyddog Nyrsio gynnull tasglu wedi'i gadeirio gan ei Chynghorydd Bydwreigiaeth er mwyn datblygu model goruchwylio bydwagedd cadarn ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, yn seiliedig ar yr egwyddorion yn nogfen yr Adran Iechyd. Gan ddefnyddio hanfodion y model presennol yng Nghymru, mae'r tasglu yn gweithio i wella a chadw elfennau goruchwylio cefnogol i fydwagedd. Rhagwelir y bydd Goruchwylwyr Bydwagedd y dyfodol yn hybu datblygiad ymarferwyr myfyriol sy'n defnyddio eu gwerthoedd proffesiynol yn unol â'r Cod (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2015). Disgwylir i'r tasglu gynhyrchu modelau drafft cychwynnol er mwyn ymgynghori arnynt ym mis Medi 2016.

1.2 Y Gymhareb o Oruchwylwyr Bydwagedd i Fydwagedd

Mae Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwagedd er mwyn sicrhau bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9⁷ Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwagedd i fydwagedd yn llai nag 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, o leiaf, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

Mae'r gymhareb o oruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio fformiwla benodol, sy'n seiliedig ar yr oriau Goruchwylwyr Bydwagedd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn ôl nifer y gweithwyr, yn hytrach na rhannu nifer y Goruchwylwyr Bydwagedd gyda'r nifer o fydwagedd sy'n cael eu cyflogi. Gellir gweld sut mae cymarebau o oruchwylwyr bydwagedd i fydwagedd yn cael eu cyfrifo yng Nghymru yn Atodiad 1.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd 12.6 o oruchwylwyr bydwagedd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi. Roedd 1,775 o fydwagedd wedi hysbysu'r AGLI am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod 2016-17. Gan ddefnyddio'r gymhareb a gyfrifwyd, wedi'i chymhwysu, a geir yn Atodiad 1, y gymhareb ar gyfer Cymru gyfan, ar gyfartaledd, oedd 1:12.

⁷ Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwagedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio bydwagedd.

1.3 Tabl 1 – Cymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd mewn byrddau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016

Bwrdd iechyd	Bydwragedd	Goruchwylwyr Bydwragedd cyfwerth ag amser llawn	Oriau Goruchwylwyr Bydwreigiaeth bob mis	Cymhareb wedi'i chymhwysu
Abertawe Bro Morgannwg	296	2.2 cyfwerth ag amser llawn	265 awr	1:12
Aneurin Bevan	314	2.4 cyfwerth ag amser llawn	289 awr	1:11
Betsi Cadwaladr	388	3.0 cyfwerth ag amser llawn	337 awr	1:11
Caerdydd a'r Fro	275	2 cyfwerth ag amser llawn	240 awr	1:12
Cwm Taf	200	1.2 cyfwerth ag amser llawn	144 awr	1:14
Hywel Dda	202	1.6 cyfwerth ag amser llawn	192 awr	1:11
Powys	44	0.2 cyfwerth ag amser llawn	48 awr	1:22

Darparwyd goruchwyliaeth i 56 o fydwragedd wedi'u cyflogi ym maes addysg, ymwelwyr iechyd, rolau nad ydynt yn rhai bydwreigiaeth, bydwragedd annibynnol ac asiantaeth, yn ôl yr angen.

1.4 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo a chaniatâd i fod yn absennol

Mae'r model goruchwyllo wedi'i ymgorffori yn ein harfer ac mae'r ymddiswyddiadau a'r nifer o oruchwylwyr bydwragedd a gawsant eu dad-ddethol yn y blynyddoedd diwethaf wedi dod i ben. Cafodd cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru Gyfan ei hwyluso gan Brifysgol Abertawe, a oedd yn galluogi'r AGLI i benodi nifer cymesur o Oruchwylwyr Bydwragedd i fodel Cymru gyfan. Dewiswyd y myfyrwyr Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd drwy broses ddethol drylwyr a gynhaliwyd ym mis Medi 2015 (Tabl 2).

Tabl 2 – Tueddiadau penodi a dad-ddethol ar gyfer y tair blynedd diwethaf

Y nifer o oruchwylwyr bydwragedd	2013-2014	2014-2015	2015-2016
A benodwyd yn ystod y flwyddyn	7	16	5
Wedi'u symud o'r swydd (dad-ddethol gan yr AGLI)	0	0	0
Wedi ymddiswyddo (dad-ddethol eu hunain)	27	85	4

Wedi'u gwahardd o'u swydd (gwaharddiad gan yr AGLI)	0	0	0
Wedi'u hatal o'r swydd (hunan-ataliad)	0	0	0
Wedi dechrau ar y cwrs paratoi (mis Medi)	0 (2013)	5	6
Caniatâd i fod yn absennol	13	2	0
Cyfanswm y goruchwylwyr bydwagedd mewn swydd	101	16	17

1.5 Datblygiad proffesiynol parhaus goruchwylwyr bydwagedd

Er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr bydwagedd yn cyflawni gofynion Rheol 8,⁸ mae'r AGLI yn ymroddedig i sicrhau bod pob goruchwylwr bydwagedd sy'n cael eu penodi yng Nghymru yn gallu cael mynediad at isafswm o 6.5 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn ac yn cael cyfleoedd i ddiweddarau eu hymarfer.

Cafodd y rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd ei darparu gan Brifysgol Abertawe yn 2015-16. Mae'r myfyrwyr Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd yng Nghymru yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ar lefel Meistr (modiwl), i'w helpu i baratoi a datblygu i'r rôl newydd yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae elfennau craidd datblygiad myfyrwyr Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynnwys sut i gynorthwyo bydwagedd i gyflawni eu gofynion cofrestru statudol, hwyluso goruchwyliaeth grŵp Adolygiad Goruchwyllo Blynyddol fel dulliau o gyflenwi dysgu rhagweithiol, systemau llywodraethu, sgiliau ysgrifennu adroddiadau a sgiliau ymchwiliol. Bydd gan y myfyrwyr ar y rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd fentor dynodedig a fydd yn Oruchwyllydd Bydwagedd profiadol i'w cysgodi, eu cynorthwyo a'u tywys drwy'r ymarfer o gymhwyso goruchwyliaeth o ddydd i ddydd yn ystod eu cyfnod hyfforddi.

Mae'r mwyafrif llethol o sylwadau a'r adborth a dderbyniwyd gan y Goruchwylwyr Bydwagedd sydd wedi cwblhau'r rhaglen baratoi wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI wedi bod yn gyfranogwyr rhagweithiol yn y broses o gyflenwi'r rhaglen hyd nes y dechreuodd y cohort olaf o fyfyrwyr Paratoi Goruchwylwyr Bydwagedd ar eu hyfforddiant ym mis Medi 2015. Bydd y tasglu sy'n cael ei gynnwys gan y Prif Swyddog Nyrsio yn ystyried yr addysg a'r hyfforddiant y bydd angen i oruchwylwyr bydwagedd eu cyflawni, er mwyn cyflenwi'r rôl goruchwylwyr bydwagedd, wedi iddi gael ei hailgynllunio, yn y dyfodol.

⁸ Mae Rheol 8 safonau a rheolau Bydwagedd y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofyniad ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus fel goruchwylwr bydwagedd.

Yn y cyfamser, mae darpar Oruchwylwyr Bydwagedd wedi cael cynnig tri diwrnod o astudiaeth ffurfiol unigol er mwyn cyflawni eu gofyniad DPP, a gallu camu i mewn i'r rôl pe byddai angen.

Yn 2015-16 cafodd nifer o Oruchwylwyr Bydwagedd gyfle i fynychu digwyddiadau yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn cynnwys cyfarfod y grŵp cyfeirio strategol ar gyfer Swyddogion Bydwagedd yr AGLI, cyfarfodydd y Pwyllgor Bydwreigiaeth a chyfarfodydd cyngor yr AGLI. Ymhlith y cyfleoedd datblygu eraill roedd mynychu trafodaeth Coleg Brenhinol y Bydwagedd: Maniffesto ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth, "Rheoli Newid Personol", mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Bydwagedd, Diwrnod Astudio ar Ofal Tosturiol mewn Bydwreigiaeth, hyfforddiant ar Arweinyddiaeth Ysgogol, a sesiynau hyfforddi tîm.

Rhannwyd cyfleoedd i fynychu cynadleddau ymhlith y Goruchwylwyr Bydwagedd drwy'r flwyddyn, a oedd yn cynnwys:

- Cynhadledd Coleg Brenhinol y Bydwagedd
- Cynhadledd y Prif Swyddog Nyrsio
- Cynhadledd y Gymdeithas Myfyrwyr
- Cynhadledd "dewisiadau genedigaeth" y *British Journal of Midwifery*
- Cynhadledd genedigaeth gyfreithiol Coleg Brenhinol y Bydwagedd
- Cynhadledd Gogledd-ddwyrain yr AGLI
- Cynhadledd y Rhwydwaith Mamolaeth.

Mae'r digwyddiadau datblygu a rhannu gwybodaeth wedi sicrhau cyfleoedd DPP pwysig i Oruchwylwyr Bydwagedd ac roeddent yn gyfleoedd defnyddiol iawn i alluogi Goruchwylwyr Bydwagedd i fireinio'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u cynllunio ar draws y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Ar ôl mynychu digwyddiad, gofynnwyd i bob Goruchwyllydd Bydwagedd gwblhau adroddiad byr ar y fformat SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Cam Gweithredu, Adolygu) ar yr elfennau dysgu allweddol i'w rhannu gyda'r grŵp cyfan, er mwyn sicrhau bod pob Goruchwylwr Bydwagedd yn elwa ar y dysgu.

Bu i dîm yr AGLI a'r Goruchwylwyr Bydwagedd gynllunio a chynnal "Cynhadledd Wanwyn Flynyddol yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol" ar 20 Mai 2015. Thema'r gynhadledd oedd atebolrwydd proffesiynol: Defnyddio Cod⁹ ac Ailddilysiad¹⁰ y Cyngor Nyrsio Bydwreigiaeth i gefnogi bydwagedd; rhannu gwersi o ddigwyddiadau ac arfer da ar draws Cymru gyfan. Bu'r gynhadledd, a gynhaliwyd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yng nghanolbarth Cymru, yn ddigwyddiad llwyddiannus a fynychwyd gan fydwagedd a bydwagedd dan hyfforddiant o bob cwr o Gymru. Agorwyd y gynhadledd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, yna cafwyd cyflwyniadau gan randdeiliaid allweddol yn

⁹ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015), The Code: Professional standards of practice and behaviour for nurses and midwives.

¹⁰ Ailddilysiad (2016), <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/revalidation/how-to-revalidate-booklet.pdf>

cynnwys adolygydd lleyg, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Coleg Brenhinol y Bydwagedd, arweinwyr bydwreigiaeth o'r gwasanaeth, a Bydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg. Safodd cynulleidfwr gynhadledd ar eu traed i gymeradwyo bydwraig a gyflwynodd ei thaith a'i phrofiad o gwblhau Rhaglen Ymarfer yr AGLI yn ddiweddar.

1.6 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylwyr bydwagedd

Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylwyr bydwagedd, ac mae'n nodi y bydd yr AGLI yn sicrhau:

- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal oruchwylwyr bydwagedd wedi ei enwi
- Bod pob goruchwylwyr bydwagedd yn cyfarfod pob bydwraig y mae'n oruchwylwyr bydwagedd a enwir ar ei chyfer o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwraig a nodi ei hanghenion hyfforddiant
- Bod pob goruchwylwyr bydwagedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'i weithgareddau goruchwylwyr, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd gyda bydwraig
- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal fynediad 24 awr at oruchwylwyr bydwagedd .

Neilltuir goruchwylwyr bydwagedd a enwir i bob bydwraig ar ddechrau ei chyflogaeth. Os bydd bydwraig yn hunangyflogedig, bydd yr AGLI yn gofyn i oruchwylwyr bydwagedd sy'n byw a/neu'n gweithio'n agos at leoliad y fydwraig, neu'n gallu teithio i'r lleoliad hwnnw, i gynnwys y fydwraig hunangyflogedig yn ei llwyth gwaith goruchwylwyr fel rheol. Hysbysir pob bydwraig a phob goruchwylwyr bydwagedd y gallant wneud cais i newid eu goruchwylwyr bydwagedd neu eu bydwraig, os nad yw'r berthynas yn effeithiol i'r naill ochr neu'r llall.

Yn ystod 2015-16, parhaodd yr AGLI i fonitro ei gronfa ddata bob tri mis ac, ar sail ad hoc, i sicrhau bod gan bob bydwraig yng Nghymru oruchwylwyr bydwagedd a enwir. Gallwn hysbysu bod pob bydwraig a oedd yn ymarfer yng Nghymru yn ystod 2015-16 wedi bodloni'r gofyniad hwn. Defnyddiodd yr AGLI y gronfa ddata i fonitro hefyd, yn unol â'r safonau, a oedd adolygiadau goruchwylwyr blynyddol wedi cael eu cynnal. Cynhelir dadansoddiad o gronfa ddata'r AGLI bob tri mis i fonitro cydymffurfriad ag adolygiadau goruchwylwyr blynyddol. Ar 31 Mawrth 2016, roedd cydymffurfriad 100% â'r broses adolygu goruchwylwyr blynyddol.

Mae goruchwylwyr grŵp, er mwyn mynd i'r afael â'r adolygiadau goruchwylwyr blynyddol, wedi bod yn llwyddiant heb ei ail, gan sicrhau cymeradwyaeth llawer o fydwagedd, a oedd wedi bod yn amheus am y cysyniad yn wreiddiol.

Mae gwerthuso rheolaidd ar ôl pob sesiwn wedi nodi agweddau cadarnhaol megis dysgu gan bobl eraill a chael mewnwelediad i'r heriau mae grwpiau gwahanol o staff yn eu hwynebu, yn ogystal â darparu data cyfoethog er mwyn llywio datblygiad yn y

dyfodol. Profwyd bod yr arloesedd hwn mewn ymarfer goruchwylio yn elfen bwysig o gefnogi ailddilysiad.

Yn ystod y flwyddyn, mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn cael cyfarfodydd misol gyda'u Pennaeth Bydwreigiaeth. Bob chwarter, mae'r cyfarfod yn cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, sy'n adrodd ar weithgarwch yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol drwy adroddiad monitro chwarterol. Cynhelir trafodaethau ar faterion y bwrdd iechyd sy'n cael effaith ar ymarfer bydwreigiaeth, yn cynnwys cydymffurfiaeth bydwagedd â gofynion rheoliadol y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth, ymchwiliadau goruchwylio parhaus, a rhaglenni adfer. Mae'r AGLI yn defnyddio'r gronfa ddata i gyhoeddi adroddiadau ar weithgareddau Goruchwylwyr Bydwagedd, sy'n galluogi gwaith monitro perfformiad cadarn.

Mae mynediad 24 awr ar gael i Oruchwylwyr Bydwagedd ar rif cenedlaethol i Gymru (0300 062 8049), i ddefnyddwyr gwasanaeth a bydwagedd, sy'n darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â goruchwylio a safonau proffesiynol. Mae'r rota ar-alwad Cymru gyfan yn parhau i fod yn effeithiol. Mae tueddiadau a themâu ar y galwadau yn cael eu coladu'n adroddiadau archwilio bob chwe mis, sy'n cael eu hadolygu yng nghyfarfod perfformiad misol Goruchwylwyr Bydwagedd a'u rhannu gyda'r Penaethiaid Bydwagedd. Yn ogystal â'r templed ar-alwad, mae cais i gysylltu â galwyr ar ddyddiad ac amser yn y dyfodol, a hynny at ddibenion archwilio, er mwyn monitro effeithiolrwydd y cyngor ar-alwad a'r gwasanaeth a ddarparwyd. Datblygiad pellach o'r templed ar-alwad yw gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a fyddai'n well ganddynt gyfathrebu â'r AGLI yn Gymraeg neu'n Saesneg, er mwyn rheoli eu cyswllt. Mae pum goruchwilydd bydwagedd sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Pe byddai'n well gan alwr siarad a chyfathrebu yn Gymraeg, gwneir cynnig i ddychwelyd yr alwad o fewn 48 awr.

Estynnir gwahoddiad i'r Goruchwylwyr Bydwagedd gwrdd â'r bydwagedd dan hyfforddiant yn y pedwar sefydliad addysg cymeradwy: Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan y bydwagedd dan hyfforddiant a'r darlithwyr yn y prifysgolion yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI wedi derbyn un darn o adborth negyddol ac mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae gan y myfyrwyr gyfle i fynychu sesiynau goruchwylio grŵp, te parti cadw cofnodion, a thrafodaethau ar safonau proffesiynol a gofynion ailddilysu.

Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad misol gyda Goruchwylwyr Bydwagedd o bob rhan o Gymru. Prif ddiben y cyfarfod yw rheoli'r gydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u nodi yn y fanyleb gwasanaeth, ac mae'n rhoi cyfle i'r Goruchwylwyr Bydwagedd ddatblygu gwaith tîm a defnyddio'r rhwydwaith cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan dîm Goruchwylwyr Bydwagedd Cymru Gyfan. O ganlyniad i lwyddiant y goruchwylio grŵp ar gyfer bydwagedd, mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd wedi cynnwys setiau dysgu gweithredu i gyfarfodydd bob yn ail Cymru gyfan er mwyn rhannu dysgu a meithrin tîm.

1.7. Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI

Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth¹¹ yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i sicrhau bod awdurdodau goruchwylio lleol yn parhau i gyflawni'r rheolau a'r safonau. Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn darparu dulliau strwythuredig o adolygu AGLI er mwyn dangos effeithiolrwydd goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ac ymarfer da ac amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Mae adolygiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystyried y dulliau a ddefnyddir gan yr AGLI i archwilio ei hun ac maent yn ystyried gwybodaeth o nifer o ffynonellau, sy'n gallu taflu goleuni ar y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â goruchwylio bydwragedd.

Yn 2015-16, cafodd awdurdodau goruchwylio lleol eu dewis i'w hadolygu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar sail y pryderon a godwyd yn yr adroddiadau chwarterol a gyflwynwyd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu drwy adroddiadau eithriadau gan Swyddog Bydwreigiaeth AGLI. Er na chodwyd unrhyw bryderon yn yr adroddiadau chwarterol yng Nghymru yn 2015-16, cyflwynwyd adroddiad eithriad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr¹² ym mis Mehefin 2015. O ganlyniad i hyn, cynhaliodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth adolygiad ym mis Gorffennaf 2015 dros gyfnod o dri diwrnod ac roedd y rhaglen yn seiliedig ar reolau pedwar, chwech, saith, wyth, naw, deg a phedwar ar ddeg y rheolau a safonau Bydwragedd (2012). Mae tîm adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn adrodd ar y modd y mae'r AGLI, dan archwiliad, wedi perfformio yn erbyn risgiau allweddol a nodwyd ar ddechrau'r cylch adolygu. Bernir bod y safonau wedi'u 'cyflawni', 'heb eu cyflawni' neu 'angen eu gwella'. Pan na fydd safon wedi'i chyflawni, cytunir yn ffurfiol ar gynllun gweithredu gyda'r AGLI a bydd yn cael ei chyflawni o fewn amserlen gytûn:

- Rheol 7 – Nid oedd yr AGLI wedi cwblhau archwiliad blynyddol o arferion goruchwylio ar yr adeg honno

¹¹ Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/edandqa/nmc-quality-assurance-framework.pdf?_t_id=1B2M2Y8AsgTpgAmY7PhCfg%3d%3d&_t_q=quality+assurance+framework&_t_tags=language%3aen%2csiteid%3ad6891695-0234-463b-bf74-1bfb02644b38&_t_ip=46.254.200.2&_t_hit.id=NMC_Web_Models_Media_DocumentFile/_545731fd-0c8e-449e-bd8d-dfea109d162f&_t_hit.pos=1

¹² Adolygiad arbennig yr AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru , AGLI ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/midwiferyextraordinaryreviewreports/2015/extraordinary-isa-review-of-performance---hiw-english.pdf?_t_id=1B2M2Y8AsgTpgAmY7PhCfg%3d%3d&_t_q=extraordinary+review&_t_tags=language%3aen%2csiteid%3ad6891695-0234-463b-bf74-1bfb02644b38&_t_ip=46.254.200.2&_t_hit.id=NMC_Web_Models_Media_DocumentFile/_bc9fee6f-c1d4-4365-8f80-1fb77dc205c5&_t_hit.pos=8

- Rheol 9 – cydymffurfiaeth yr Adolygiad Goruchwylio Blynyddol oedd 97%, ac nid y 100% gofynnol.

Mewn ymateb i adolygiad arbennig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, cynlluniwyd rhaglen archwilio lawn ar gyfer y saith bwrdd iechyd yng Nghymru ym mis Hydref a mis Tachwedd 2015. Roedd y templed ar gyfer rhaglen archwilio'r AGLI yn adlewyrchiad o dempled yr adolygiad arbennig, er mwyn cael sicrwydd bod pob bwrdd iechyd yn cyflawni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer darparu goruchwyliaeth statudol. Mae adroddiad llawn pob un o'r byrddau iechyd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.¹³

Llwyddodd y tîm goruchwylio bydwagedd ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr i gyflawni a chynnal cydymffurfiaeth o 100% am gwblhau Adolygiad Goruchwylio Blynyddol o fis Awst 2015 hyd at ddyddiad cwblhau'r adroddiad blynyddol.

Parhaodd model goruchwylio Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru hyd at fis Rhagfyr 2015. Gwnaed penderfyniad bryd hynny i ganolbwyntio ar dasglu Cymru gyfan, a gweithio i newid o oruchwylio statudol i fodel sy'n cael ei arwain gan y cyflogwr. Mae'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi parhau ar sail chwarterol gydag adroddiad yn cael ei baratoi i'w ddosbarthu i'r rhanddeiliaid allweddol. Estynnwyd gwahoddiad i adolygydd lleyg fynychu cyfarfodydd misol Goruchwylwyr Bydwagedd Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf, Hydref a mis Ionawr 2017 i dderbyn yr adroddiad adborth monitro chwarterol.

1.8 Crynodeb o amddiffyn y cyhoedd, cyd-destun a chanfyddiadau

Rôl strategol Awdurdod Goruchwylio Lleol AGIC yw pennu'r cyfeiriad ar gyfer goruchwylio bydwagedd yn unol â rheolau a safonau bydwagedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012). Mae canfyddiadau'r archwiliad yn dangos bod AGLI AGIC wedi sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ar gyfer monitro perfformiad y goruchwylwyr bydwagedd a bydwagedd sy'n ymarfer ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn. Roedd y broses archwilio yn mesur darpariaeth goruchwyliaeth yng Nghymru yn erbyn y saith rheol berthnasol yn rheolau a safonau Bydwagedd (2012).

1.9 Ymgysylltu â sefydliadau addysg cymeradwy

Ceir pedwar Sefydliad Addysg Cymeradwy yng Nghymru, ac mae pob un yn cynnig addysg bydwreigiaeth cyn ac ar ôl cofrestru. Yn ystod y flwyddyn, bu goruchwylwyr bydwagedd wrthi'n ymgysylltu â phob Sefydliad Addysg Cymeradwy i sicrhau bod

¹³ Gwefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
<http://hiw.org.uk/reports/lsareports/?skip=1&lang=cy>

myfyrwyr yn gyfarwydd â'r syniad o oruchwyliaeth a'i phwysigrwydd wrth baratoi ar gyfer cofrestru fel bydwaig. Cynigiwyd nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr brofi goruchwyliaeth ar waith, megis mynychu te parti archwilio nodiadau, a bod myfyrwyr trydedd flwyddyn yn mynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp fel arsylwyr.

Mae dangosydd perfformiad allweddol (DPA) 5 yn y Fanyleb Wasanaeth yn canolbwyntio ar y cyswllt rhwng goruchwylwyr bydwragedd a myfyrwyr, gan fwy na bodloni'r gofynion yn Rheol 9 rheolau a safonau Bydwragedd 1.1.2.¹⁴ Mae'r cyswllt agosach hwn â bydwragedd dan hyfforddiant wedi galluogi goruchwylwyr bydwragedd i fonitro pryderon yn yr amgylchedd clinigol, a allai fel arall fod wedi cael effaith niweidiol ar raglen hyfforddi myfyrwyr. Hysbyswyd yr AGLI am bryder o'r fath a fynegwyd gan fyfyrwyr trwy eu Sefydliad Addysg Cymeradwy. Yn dilyn yr adolygiad arbennig o ddarpariaeth addysgol y Sefydliadau Addysg Cymeradwy ac amgylchedd dysgu BIPBC ym mis Gorffennaf 2015, cafodd bydwragedd dan hyfforddiant eu symud o leoliadau ysbyty yn Ysbyty Glan Clwyd a'u hadleoli yn y gymuned ac mewn unedau mamolaeth eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i ddarparu cymorth i fydwragedd sydd newydd gymhwyso wrth iddynt brofi eu blwyddyn gyntaf fel bydwragedd cofrestredig. Mae Dangosydd Perfformiad Allweddol 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Oruchwylwyr Bydwragedd gwrdd â 100% o fydwragedd sydd newydd gymhwyso, o leiaf dwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith erbyn 12 mis, i gytuno ar eu rhaglen preceptorial a'i monitro.

Mae'r AGLI yn cysylltu'n rheolaidd â'r Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg ar draws Cymru, sy'n cynnwys mynychu cyfarfodydd chwarterol y grŵp Penaethiaid Addysg Bydwreigiaeth. Cafodd y Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg a'r uwch ddarlithydd sy'n gyfrifol am baratoi Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant eu cynrychioli ar grŵp Monitro a Gwerthuso'r AGLI ac yn fwy diweddar ar y grŵp tasglu.

¹⁴ Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi y dylai'r AGLI feddu ar fframwaith i gefnogi bydwragedd dan hyfforddiant er mwyn iddynt gael mynediad at oruchwyliaeth bydwragedd.

2. Adroddiad blynyddol adolygwyr lleyg yr AGLI 2015-16

Mae gwaith yr adolygwyr lleyg yn 2015-16 wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Archwilio goruchwyliaeth bydwreigiaeth yn y Byrddau Iechyd
- Recriwtio Swyddogion Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd yr AGLI
- Cymryd rhan yng Ngrŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan
- Cymryd rhan yn Fforwm Menywod y Rhwydwaith Mamolaeth
- Cynrychiolaeth ar y grŵp tasglu yn gweithio ar fodel newydd o oruchwyliaeth anstatudol ar gyfer bydwragedd
- Mynychu a chyflwyno Cynhadledd Wanwyn yr AGLI yn 2015.

Mae'r gwaith hwn wedi gweld rôl yr adolygwyr lleyg yn datblygu o un draddodiadol sy'n canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth i rôl sy'n fwy strategol, sy'n canolbwyntio ar bob agwedd ar oruchwyliaeth bydwragedd.

Y broses archwilio

Yn ystod ymweliadau archwilio 2015-16, roedd yr adolygwyr lleyg yn ceisio mynd ar drywydd canfyddiadau archwiliadau 2014-2015, a oedd yn edrych ar y meysydd canlynol:

- Profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth o oruchwyliaeth
- Pa mor hygyrch yw'r goruchwylwyr i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Effeithiolrwydd goruchwyliaeth grŵp a'r DPP yn cynnwys adolygiad o ymwybyddiaeth bydwragedd o broses ailddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yn y mwyafrif o'r ymweliadau archwilio, canfu'r adolygwyr lleyg fod ymwybyddiaeth y defnyddwyr gwasanaeth o oruchwyliaeth yn parhau i fod yn isel gyda'r rhan fwyaf ohonynt ddim yn ymwybodol o'r tîm; fodd bynnag, roedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn dau fwrdd iechyd lefelau gwell o ymwybyddiaeth nac a ganfuwyd yn flaenorol. Ni wnaeth yr adolygwyr lleyg archwilio profiadau'r menywod a oedd wedi cysylltu â goruchwyllydd yn ystod yr archwiliad hwn; fodd bynnag, fe wnaethant ganfod tystiolaeth gan Oruchwylwyr Bydwragedd eu hunain a chadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cwrdd â menywod i drafod eu hanghenion a'u pryderon.

Yn nhermau hygyrchedd, yn ystod ymweliadau archwilio 2015-16, canfu'r adolygwyr lleyg bod gwybodaeth am oruchwyliaeth ar gael yn gyhoeddus ym mhob maes o'r gwasanaethau mamolaeth. Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o'r wybodaeth a roddwyd yn gyfredol neu roedd yn anghywir. Gwnaed galwadau gan yr adolygwyr lleyg i switsfyrddau pob bwrdd iechyd i ofyn am y rhif ar-alwad 24 awr. Mewn sawl achos, rhoddwyd gwybodaeth anghywir ac ystyriwyd bod angen hyfforddiant ymwybyddiaeth ar

y staff switsfwrdd. Yn yr un modd, nid oedd gwybodaeth ar wefannau'r byrddau iechyd bob amser yn hygyrch ac mewn rhai achosion roedd y wybodaeth yn anghywir.

Un o brif bwyntiau archwiliad 2015-16 oedd goruchwyliaeth grŵp a mynd ar drywydd yr heriau a nodwyd yn yr archwiliad blaenorol; yn bennaf, sicrhau dull gweithredu cyson a gwneud yn siŵr bod pob bydwraig yn gallu mynychu'r sesiynau. Derbyniodd yr adolygwyr lleyg adborth gan fydwragedd hefyd am oruchwyliaeth grŵp. Canfu'r ymweliadau archwilio fod y mwyafrif o'r bydwragedd y siaradwyd â hwy wedi mynychu adolygiad goruchwyllo blynyddol o fewn sesiwn goruchwyllo grŵp yn y 12 mis diwethaf. Ar y cyfan, roedd yr adborth a dderbyniwyd yn dangos bod yn well gan y bydwragedd y model newydd o oruchwyliaeth grŵp, o gymharu â'r cyfarfodydd un i un blaenorol. Soniodd y bydwragedd am y cyfleoedd i ddysgu ar y cyd a dealltwriaeth well o rolau eu cydweithwyr, yn ogystal â'r cyfle i rannu pryderon.

Ailddilysiad

Ar y cyfan, canfu'r adolygwyr fod ymwybyddiaeth dda o'r broses ailddilysu a'r gofynion portffolio newydd.

Cyfranogiad adolygwyr lleyg yn ymweliad arbennig Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Betsi Cadwaladr

Ym mis Gorffennaf 2015, fel rhan o ymweliad dirybudd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i fwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cafwyd cais gan adolygydd lleyg i gael eu cyfweld gan adolygydd lleyg y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Cynhaliwyd y cyfweiliad hwn dros y ffôn ac roedd yn cynnwys trafodaethau ar gyfranogiad yr adolygwyr lleyg mewn gweithgareddau archwilio yn ystod y 12 mis blaenorol.

Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan

Parhaodd yr adolygwyr lleyg i gyfranogi a chyfrannu i Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan (a sefydlwyd i oruchwyllo perfformiad model gwerthuso Cymru yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol). Yn sgîl newid i oruchwyliaeth anstatudol, cyfarfu'r grŵp am y tro olaf ym mis Gorffennaf 2016, oherwydd cafodd y cyfarfod hwn ei ddisodli gan gyfarfodydd y tasglu. Estynnwyd gwahoddiad i'r adolygwyr lleyg fynychu cyfarfodydd y tasglu a Goruchwylwyr Bydwragedd yn y cyfnod interim, er mwyn adolygu perfformiad goruchwyliaeth yng Nghymru a hysbysu'r model newydd.

Fforwm Menywod y Rhwydwaith Mamolaeth

Cafodd y rhwydwaith ei sefydlu gyda'r nod o safoni gwasanaethau mamolaeth ar draws Cymru, a chanolbwyntio ar ansawdd, diogelwch a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth. Un o brif nodau'r Rhwydwaith yw sefydlu fforwm menywod Cymru Gyfan. Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliwyd digwyddiad i drafod sut y gallai fforwm o'r fath alluogi i leisiau merched lywio'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mynychodd adolygydd lleyg y digwyddiad ochr yn ochr â chadeiryddion Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys yr AGLI a Llywodraeth Cymru. Rhannwyd syniadau ynghylch yr heriau, y cyfleoedd ac agweddau ymarferol sefydlu

fforwm. Roedd yr adolygydd lleyg a oedd yn bresennol yn gallu rhannu gwybodaeth am rôl tîm yr adolygydd lleyg mewn trafodaethau am gyfranogiad lleyg mewn grwpiau a fforymau cenedlaethol.

Recriwtio

Bu adolygwyr lleyg yn cymryd rhan yn y broses recriwtio ar gyfer Swyddogion Mamolaeth newydd yr AGLI ac ar gyfer darpar Oruchwylwyr Bydwagedd. Roedd hyn yn darparu cyfle i helpu i asesu'r ymgeiswyr o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, lleyg.

Cynhadledd Wanwyn 2015 yr AGLI

Roedd Cynhadledd Wanwyn 2015 yr AGLI yn gyfle i'r adolygwyr lleyg gyflwyno'r data ansoddol a gasglwyd yn archwiliad y flwyddyn flaenorol, gyda phwyslais penodol ar safbwyntiau'r defnyddwyr gwasanaeth ar rôl goruchwyllo bydwagedd. Holodd nifer o gyfranogwyr gwestiynau am y maes hwn o waith y tîm adolygwyr lleyg a dweud bod clywed y safbwynt hwn wedi bod yn fuddiol iddynt.

Cyfranogiad adolygwyr lleyg mewn trafodaethau am ddyfodol goruchwyliaeth

Yn fwy diweddar, mae adolygwyr lleyg wedi cyfrannu eu safbwyntiau i drafodaethau am fodel goruchwyliaeth anstatudol yng Nghymru yn y dyfodol. Estynnwyd gwahoddiad i aelod o'r tîm adolygwyr lleyg gymryd rhan yn y grŵp tasglu a sefydlwyd i drafod y syniad o fodel goruchwyliaeth orfodol yng Nghymru, o dan arweiniad Cynghorydd Bydwreigiaeth y Prif Swyddog Nyrsio. Oherwydd bod aelodau'r tasglu yn edrych yn bennaf ar y model o safbwynt clinigol, roedd yr adolygwyr lleyg o'r farn ei bod yn bwysig edrych ar y model o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Gyda hyn mewn cof, bu'r adolygwyr lleyg yn ystyried cynnig y model goruchwyliaeth drafft a chyflwynwyd eu safbwyntiau cychwynol i'w cyflwyno i'r tasglu.

Y dyfodol

Ar ôl gwneud cyfraniad gweithredol i gymaint o wahanol agweddau ar waith yr AGLI, mae'r adolygwyr yn edrych ymlaen at gael parhau â'u gwaith hyd nes y disgwylir i oruchwyliaeth statudol ddod i ben ym mis Mawrth 2017. Yn y misoedd i ddod, byddant yn cymryd rhan yn rownd derfynol archwiliad yr AGLI o oruchwyliaeth yn y byrddau iechyd, gan adeiladu ar ganfyddiadau eu harchwiliad blaenorol. Byddant hefyd yn parhau i gymryd rhan a chyfrannu eu safbwyntiau a'u syniadau ar gynigion ar gyfer y model goruchwyllo newydd yng Nghymru, o safbwynt lleyg.

3. Polisiâu cenedlaethol a lleol yn ymwneud â goruchwyllo

3.1 Cenedlaethol

Yn ystod 2015-16, adolygwyd a diweddarwyd yr holl bolisiâu a chanllawiau cenedlaethol gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU. Caiff polisiâu a chanllawiau cenedlaethol eu llunio er mwyn cefnogi swyddogion bydwreigiaeth yr awdurdodau goruchwyllo lleol a goruchwylwyr bydwagedd wrth eu gwaith. Rhoddir pwyslais yn y DU ar sicrhau tegwch a chysondeb, o ran proses a chanlyniadau, lle bynnag y cyflawnir y gweithgarwch goruchwyllo. Mae'r polisiâu a chanllawiau cenedlaethol wedi'u cyhoeddi ar wefan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU.¹⁵

3.2 Lleol

Mae'r AGLI wedi diweddarau'r llyfr gwaith ymchwilio a'r rhaglen adfer er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2015).

Mae diweddariadau pellach yn 2015-16 yn cynnwys Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y broses arfer, a ddatblygwyd ar gyfer bydwagedd asiantaeth sy'n darparu gofal bydwreigiaeth yng Ngogledd Cymru.

4. Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimadd

Gellid cynnal ymchwiliad goruchwyllo o ganlyniad i adolygiad o achos, yn dilyn archwiliad rheolaidd o gofnodion neu drwy ddulliau cwynion y bwrdd iechyd, lle caiff safonau ymarfer bydwreigiaeth eu cwestiynu.

Mae pob digwyddiad clinigol difrifol yn destun adolygiad achos goruchwyllydd bydwagedd. Bydd y Goruchwyllydd Bydwagedd yn cofnodi'r adolygiad o achosion gan ddefnyddio fformat SBAR,¹⁶ neu dempled adolygu achosion Fforwm AGLI y DU, pa un bynnag sy'n cael ei ystyried yn briodol ar gyfer casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r digwyddiad.

Bydd y Goruchwyllydd Bydwagedd yn asesu a ddylid uwchraddio'r digwyddiad i'r AGLI gan ddefnyddio 'Rhestr Sbarduno Hysbysiad am Ddigwyddiad yr AGLI'. Bydd angen cwblhau "Pecyn Offer Penderfyniadau" Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdod Goruchwyllo Lleol y DU ar gyfer pob digwyddiad sy'n cael ei hysbysu yn unol â rhestr sbarduno hysbysiad am ddigwyddiad. Mae'r pecyn yn galluogi'r Goruchwyllydd

¹⁵ Gwefan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol
<http://www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk/>

¹⁶ Gwella dulliau cyfathrebu clinigol gan ddefnyddio SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu)
<http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/T4I%20%283%29%20SBAR.pdf>

Bydwragedd i asesu'r ymarfer bydweigiaeth a ddarparwyd yn unol â'r rheolau a safonau Bydwragedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth, 2012) a Chod y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth (2015). Ar ôl cwblhau'r pecyn offer, bydd y Goruchwylydd Bydwragedd yn cyfeirio'r digwyddiad ac yn ei drafod gyda Swyddog Bydweigiaeth yr AGLI, a fydd yn ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad goruchwyllo allanol llawn, yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth Awdurdod Goruchwyllo Lleol y DU. Cynhelir ymchwiliadau goruchwyllo yng Nghymru gan oruchwyllydd bydwragedd nad yw'n cael ei gyflogi gan y bwrdd iechyd, a chynhelir yr ymchwiliad i ddarparu lefel o graffu allanol i'r broses.

Cafodd deugain o ymchwiliadau eu hysbysu'n ffurfiol a'u cychwyn o fewn yr AGLI yn 2015-16, o gymharu â 42 y flwyddyn gynt. Cynhaliwyd y 40 o ymchwiliadau yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth AGLI y DU.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd goruchwylwyr bydwragedd i'w chael hi'n anodd cwblhau ymchwiliadau o fewn y 45 diwrnod gwaith a argymhellir gan Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth AGLI y DU trwy gydol 2015-16. O'r 40 ymchwiliad a gynhaliwyd, roedd 46% wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen 45 diwrnod. O ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â'r amserlen 45 diwrnod a argymhellir ar draws y DU, mae Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth AGLI y DU wedi dod i'r farn bod y targed a bennwyd yn afrealistig, ac maent wedi cynyddu'r amserlen i 60 diwrnod o 2016. Bydd yr AGLI yng Nghymru yn ailstrwythuro ei broses i gydymffurfio â chanllaw Fforwm Swyddogion Bydweigiaeth AGLI y DU a pharhau i ganolbwyntio ar 45 diwrnod ar gyfer cwblhau ymchwiliadau, gydag uchafswm o 60 diwrnod ar gyfer cwblhau pob adroddiad a chasgliad.

Rhoddydwyd nifer o resymau dros yr oedi mewn cydymffurfiaeth â'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau adroddiadau ymchwiliadau, yn cynnwys argaeledd cymorth gweinyddol i gymryd nodiadau mewn cyfweiliadau, teipio a dychwelyd trawsgrifiadau o gyfweiliadau i a gan fydwragedd, salwch ac absenoldeb bydwragedd, a mynediad Goruchwylwyr Bydwragedd at systemau ac offer TG Llywodraeth Cymru. Mae pob achos o oedi wrth gwblhau adroddiadau yn annerbyniol am fod hyn yn arwain at ohirio camau ymarfer adferol i'r bydwragedd dan sylw. Bydd yr AGLI yn parhau i fonitro a chraffu ar amseroldeb ymchwiliadau a chasgliadau er mwyn cynorthwyo camau adferol ymarferol pan fydd eu hangen.

Ar ddiwedd ymchwiliad, bydd y Goruchwyllydd Bydwragedd a gynhaliodd yr ymchwiliad yn cyflwyno adroddiad ymchwiliad i Swyddog Bydweigiaeth yr AGLI. Mae pedwar canlyniad posibl i fydwraig yn dilyn ymchwiliad, fel y'u nodir yn rheolau a safonau Bydwragedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth 2012).¹⁷ Mae'n rhaid i Swyddog Bydwragedd yr AGLI gytuno ar y canlyniadau a gafwyd gan y Goruchwyllydd

¹⁷ Rheol 10 rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydweigiaeth (2012)

Bydwragedd a gynhaliodd yr ymchwiliad. Yn 2015-16, canlyniadau'r ymchwiliadau a gynhaliwyd oedd:

- Dim achos pellach i 34 bydwaig
- Cynllun gweithredu lleol ar gyfer 59 bydwaig
- Rhaglen ymarfer yr AGLI ar gyfer 3 bydwaig
- Atgyfeirio 2 fydwaig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gwaharddwyd dwy fydwaig rhag ymarfer¹⁸ gan yr AGLI ac fe'u hatgyfeiriwyd at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ganlyniad i ddiffygion sylweddol yn eu haddasrwydd i ymarfer. Ni chynhaliwyd un o'r gwaharddiadau gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a roddodd "amodau o orchymyn ymarfer" i'r fydwaig ymgymryd â rhaglen ymarfer yr AGLI. Nid oedd y sefydliad oedd yn cyflogi'r fydwaig yn cefnogi'r fydwaig i ymgymryd â rhaglen ac fe ddewisodd y fydwaig i beidio ymgymryd â'r rhaglen y tu allan i'r bwrdd iechyd a oedd yn ei chyflogi.

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys y themâu a'r tueddiadau a nodwyd a'r nifer o ymchwiliadau yr oedd y thema neu'r tueddiad a nodwyd yn bresennol ynddynt, o'r ymchwiliadau a gwblhawyd yn 2015-16.

Tabl 3. Themâu a thueddiadau ymchwiliadau Ebrill 2015 - Mawrth 2016

Thema	Nifer yr ymchwiliadau
Nid yw'r arfer o gadw cofnodion at safon y Cod (2015)	20
Methiant i ddehongli CTG	9
Methiant i wrando ar galon y ffetws yn unol ag arfer gorau	2
Methiant cyfathrebu o fewn y tîm	12
Methiant i uwchgyfeirio pryderon	10
Methiant i adnabod dirywiad yng nghyflwr menyw	5
Methiant i ddilyn canllaw cenedlaethol/y Bwrdd Iechyd	6
Methiant i gyfeirio menyw ar gyfer adolygiad obstetreg	4
Rheoli meddyginiaethau	3
Digwyddiadau clinigol (amrywiol)	11

Mae pob adroddiad goruchwyllo yn cael ei rannu gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth gyda phwyslais penodol ar bryderon ynglŷn â systemau a llywodraethu clinigol. Cynhelir trafodaethau ar ymchwiliadau sy'n parhau a rhaglenni adfer yn fisol ar lefel leol rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Goruchwyllydd Bydwragedd ac mae'n bosibl monitro cynlluniau gweithredu sefydliadol mewn cyfarfodydd chwarterol pan fydd Swyddog Bydwragedd yr AGLI yn bresennol.

¹⁸ Rheol 14 rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

Mae cynnwys menywod a'u teuluoedd cymaint â phosibl ym mhroses ymchwilio'r AGLI yn parhau i fod yn arfer safonol i'r AGLI. Bydd Goruchwylwyr Bydwagedd yn ysgrifennu at fenywod ar ddechrau ymchwiliad i ddarparu gwybodaeth am yr ymchwiliad ac estyn gwahoddiad iddynt gyfrannu yn yr ymchwiliad. Mae hyn yn unol â safon Dyletswydd Gonestrwydd yr AGLI¹⁹ (2015), a gyflwynwyd fel ymateb i adroddiad Francis²⁰ (2013).

4.1 Gwella'r broses o gynnal ymchwiliadau goruchwyllo

Fel y nodwyd eisoes, nid yw amseroldeb y broses ymchwilio yn fater penodol i Gymru yn unig, felly cyflwynwyd y penderfyniad i gynyddu amserlen ymchwilio i 60 diwrnod gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU yn 2016.

Bydd y cynnydd yn y cymorth gweinyddol sydd ar gael i'r AGLI o fis Mawrth 2016 yn gwella'r lefel o gymorth y bydd Goruchwylwyr Bydwagedd yn ei derbyn i gynnal eu cyfweiliadau a chefnogi'r broses o fonitro'r ymchwiliadau drwy ddulliau monitro gwell o'r llyfr gwaith lleol ar gyfer proses ymchwilio. Bydd y gwaith monitro yn cael ei reoli gan ddefnyddio dull sgorio Coch Melyn Gwyrdd, fel a ganlyn:

- Gwyrdd – disgwylir adroddiad drafft o fewn 30 diwrnod
- Melyn – ail ddrafft/adroddiad sy'n agos at gael ei gwblhau yn debygol o fod yn fwy na 45 diwrnod
- Coch – disgwylir yr adroddiad terfynol mewn mwy na 60 diwrnod.

Ni fydd yr AGLI yn dyrannu ymchwiliadau i Oruchwylwyr Bydwagedd heb fynediad i'r systemau neu offer TG perthnasol, wrth gamu i'r rôl o'u swydd barhaol. Datblygiad arall i gefnogi'r broses o reoli ymchwiliadau yw creu ffeil yn benodol ar gyfer storio'r holl ddogfennau (llythyrau, templedi, trawsgrifiadau) sy'n ymwneud ag ymchwiliadau er mwyn sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwagedd yn gallu cael mynediad rhwydd a rhannu'r wybodaeth ar draws system ddiogel gyda'r tîm cymorth gweinyddol.

Bydd yr AGLI yn buddsoddi mewn hyfforddiant ac addysg bellach ar gyfer y broses ymchwilio ac ysgrifennu adroddiadau ym mis Gorffennaf a mis Medi 2016, a chynhaliodd weithdy ym mis Ebrill 2016 i drafod, rhannu ac amlygu materion yn ymwneud â pharhau ymchwiliadau gyda'r tîm.

Mae cyfathrebu yn y broses ymchwilio ei hun yn hollbwysig i'w llwyddiant. Oherwydd bod pob ymchwiliad goruchwyllo yng Nghymru yn cael ei gynnal gan Oruchwyllydd Bydwagedd o'r tu allan i'r bwrdd iechyd lle codwyd y digwyddiad/pryder, mae'n

¹⁹ Openness and honesty when things go wrong. The professional duty of candour.

<https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/openness-and-honesty-professional-duty-of-candour.pdf>

²⁰ Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford. Cadeiriwyd gan Robert Francis QC https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279124/0947.pdf

hollbwysig bod y Goruchwylydd Bydwagedd allanol a'r Goruchwylydd Bydwagedd lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb yn ystod y broses. Mae adolygiad cymheiriaid o adroddiadau yn hollbwysig cyn eu cyflwyno i'r AGLI. Gall adolygiad cymheiriaid fod yn ddull dysgu defnyddiol wrth brofi'r darllenadwyedd a phrofi'r canfyddiadau.

Mae Swyddogion Bydwagedd yr AGLI yn ymwybodol, pan fydd yn briodol, y gall y Goruchwylydd Bydwagedd lleol gefnogi adfyfrio a dysgu i fydwaig sydd wedi nodi diffygion yn eu hymarfer eu hunain, cyn i'r ymchwiliad ddod i ben.

Yn y dyfodol, pan fydd hynny'n bosibl, bydd Goruchwylwyr Bydwagedd yn cynnal yr ymchwiliad goruchwyllo ar y cyd ag unrhyw broses reoli, ond yn cynnal natur ddiuedd y broses oruchwyllo.

4.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwyllo

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr AGLI a/neu swyddogion bydwreigiaeth yr AGLI yn unol â gweithdrefnau cwynion Llywodraeth Cymru, neu drwy broses apelio'r AGLI, fel sy'n briodol. Disgrifir y broses o ymdrin â chwynion ac apeliadau ym mholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol y DU,²¹ Cwynion yn erbyn goruchwylydd bydwagedd neu swyddog bydwreigiaeth yr AGLI. Derbyniodd yr AGLI un gŵyn ffurfiol yn 2015-16 yn ymwneud â chanlyniad ymchwiliad goruchwyllo. Mae proses apelio'r AGLI wedi'i dilyn ac mae'n parhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mae Uned Gyfreithiol Llywodraeth Cymru'n parhau i gynorthwyo AGIC gyda'r achos hwn.

Codwyd dwy gŵyn ffurfiol o ran y broses ymchwiliadau goruchwyllo a chawsant eu datrys yn dilyn cyfarfodydd rhwng y fydwaig, eu cynrychiolydd staff, y Goruchwylydd Bydwagedd a Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI.

5. Arfer nodedig ac arloesol

Derbyniodd agweddau ar fodel goruchwyllo Cymru gydnabyddiaeth fel arfer da.

Mae tîm Goruchwylwyr Bydwagedd Cymru Gyfan wedi datblygu Pasbort Preceptoriaeth Cymru Gyfan, er mwyn cynorthwyo bydwagedd sydd newydd gymhwyso yn eu blwyddyn ymarfer gyntaf wrth iddynt drosglwyddo o fod yn fyfyrwr i fod yn fydwaig. Cyflwynwyd y ddogfen hon ar draws Cymru, ac mae'n cwmpasu datblygiadau clinigol a hunanddatblygiad ar gyfer y wybodaeth a'r sgiliau y mae angen i fydwaig feddu arnynt wrth ymarfer yn y GIG heddiw.

²¹ Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU (2013) Policy for the complaint against a Supervisor of Midwives or LSA Midwifery Officer <http://www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk/policies-guidelines.aspx>

Cafodd grŵp gorchwyl a gorffen Cymru gyfan ei gynnull i ddatblygu dogfen Adolygiad Goruchwyllo Blynyddol i gefnogi bydwragedd ar gyfer aildilysiad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae angen i fydwraig ei pharatoi er mwyn cyflawni'r gofynion aildilysiad ar gyfer cyfnod tair blynedd. Mae cynnwys templed adolygu blynyddol o berfformiad y sefydliad sy'n cyflogi'r fydwraig yn y bwrdd iechyd yn galluogi i brosesau eraill gael eu cwblhau, sy'n atal dyblygiad ar gyfer monitro safonau proffesiynol a rennir. Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo yn ystod ymweliad adolygu diweddar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i Brifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r ddwy ddogfen uchod wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio ar draws Cymru gyfan gan Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth a chawsant eu cyflwyno ym mhob bwrdd iechyd yn 2016.

Mae Goruchwyliaeth Grŵp wedi'i hymgorffori'n gadarn ar draws Cymru erbyn hyn. Mae bydwragedd wedi gwerthuso goruchwyliaeth grŵp fel datblygiad effeithiol ar gyfer rhannu arfer gorau. Yn 2014, fe ariannodd AGIC werthusiad bychan o oruchwyliaeth grŵp, a gynhaliwyd gan yr Athro Susanne Darra o Brifysgol Abertawe. Cyhoeddodd yr Athro Darra a dau Oruchwyllydd Bydwragedd amser llawn o Brifysgol Betsi Cadwaladr bapurau yn y *British Journal of Midwifery* ym mis Mawrth a mis Ebrill 2016, sydd wedi'u dosbarthu'n eang ar hyd a lled y DU. Mae'r Gweinidog Iechyd yng Nghymru wedi nodi llwyddiant goruchwyliaeth grŵp ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru "Ein Hiechyd – Ein Gwasanaeth Iechyd", gyda'r farn y bydd yn debygol o fod yn fuddiol pe byddai ar gael i bob gweithiwr iechyd proffesiynol yng Nghymru.

Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd a'r AGLI wedi gweithio mewn partneriaeth i ddarparu dyddiau astudiaeth arweinyddiaeth "Rheoli Newid Personol" i gynrychiolwyr Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Goruchwylwyr Bydwragedd ac uwch fydwragedd. Bu'r digwyddiadau yn llwyddiant ysgubol a chawsant eu mwynhau gan bawb a'u mynychodd.

Roedd adolygwyr llewg yn ystod proses archwilio'r AGLI ar gyfer 2015-16 yn canolbwyntio ar "brofi" ymwybyddiaeth bydwragedd a pharatoi ar gyfer y broses aildilysu. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol sy'n rhoi sicrwydd bod bydwragedd yn barod ar gyfer eu haildilysu ar y cyfan.

Cyflwynodd dau Oruchwyllydd Bydwragedd boster i arddangos llwyddiant eu "te partis cadw cofnodion" yng nghynhadledd y Prif Swyddog Nyrsio yn 2015. Cafwyd ymateb da i'r poster.

5.1 Rhannu arfer da

Cafodd y mentrau canlynol eu cyflwyno gan Oruchwylwyr Bydwragedd:

- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn darparu adroddiad themâu a thueddiadau i'r Pennaeth Bydwreigiaeth, Uwch Fydwagedd a Bydwagedd o broses Adolygiadau Goruchwylwyr Blynyddol, gan gynnal cyfrinachedd y bydwagedd pan fo hynny'n briodol.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn darparu crynodeb o'r holl ddigwyddiadau a'r gwersi i'w dysgu o ymchwiliadau'r Goruchwylwyr Bydwagedd bob mis i arweinydd pob Bwrdd Iechyd.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd wedi gwneud cyfraniad hollbwysig i greu rhaglen Preceptorïaeth Cymru Gyfan.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd wedi meithrin cyswllt cadarn rhwng y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd a fforymau llywodraethu.
- Mae gan Oruchwylwyr Bydwagedd gysylltiadau/gweleddedd effeithiol gyda phrifysgolion o amgylch Cymru ac maent yn mynychu sesiynau hyfforddiant yn rheolaidd sy'n benodol i'r maes goruchwylwyr a phroffesiynoldeb.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd yn parhau i ddarparu ymgysylltiad effeithiol gyda bydwagedd sydd newydd gymhwyso, gan gynnig sesiwn goruchwylwyr grŵp parhaus ar hyd y flwyddyn.
- Mae gwefannau'r Byrddau Iechyd sy'n ymdrin â Goruchwylwyr yn canolbwyntio llawer mwy ar wybodaeth sy'n briodol i fenyw a'i theulu ac maent yn darparu'r rhif ar-alwad cywir.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi llunio sesiwn ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol blynyddol lle bydd y bydwagedd sy'n bresennol yn adolygu cwyn neu bryder i ddangos sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn cysylltu i God y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015). Mae'r fenter hon wedi derbyn cydnabyddiaeth fel dull dysgu gwerthfawr y dylid ei rannu gyda bydwagedd ar draws Cymru gyfan.
- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi llunio rhestr wirio gyfeirio ar y gwersi i'w dysgu o Adroddiad Kirkup²² (2015) er mwyn sicrhau nad yw'r un materion yn berthnasol yn lleol. Cafwyd cydnabyddiaeth bod hyn yn ddull syml o gyfleu neges yr adroddiad yn gyflym.

²² Adroddiad ymchwiliad Morecambe Bay. Bill Kirkup CBE. Mawrth 2015
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408480/47487_MBI_Accessible_v0.1.pdf

- Mae Goruchwylwyr Bydwagedd Abertawe Bro Morgannwg wedi chwarae rhan ganolog ym mhrosiect peilot y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar ailddilysiad. Mae eu cyfraniad drwy oruchwyliaeth grŵp o greu a datblygu portffolio ac esboniadau o'r gofynion i ailddilysu wedi paratoi'r bydwagedd ar gyfer y newid. Mae Goruchwylwyr Bydwagedd Abertawe Bro Morgannwg wedi rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu gyda thîm Cymru gyfan er mwyn rhaeadru'r dysgu ar hyd a lled y wlad.
- Cafodd tîm Goruchwylwyr Bydwagedd Abertawe Bro Morgannwg eu henwebu fel tîm y flwyddyn y Bwrdd Iechyd yn 2015.
- Mae tîm Goruchwylwyr Bydwagedd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad "te partis Archwilio Nodiadau" ar draws Cymru. Mae Byrddau Iechyd eraill yn modelu eu proses flynyddol o archwilio nodiadau ar y syniad hwn.
- Cyfrannodd Caerdydd a'r Fro at brosiect i symleiddio gofal ar gyfer menywod sy'n derbyn toriad Cesaraidd dewisol er mwyn gwella ansawdd a diogelwch a phrofiad y claf.
- Menter Caerdydd a'r Fro i weithredu clinig Genedigaeth Weiniol yn dilyn Toriad Cesaraidd (VBAC) yn nau safle ysbyty gwasanaeth mamolaeth Cwm Taf o dan arweiniad y tîm Goruchwylwyr Bydwagedd.

Yn ystod 2015-16, mae'r AGLI wedi ymrwmo i weithio gydag Awdurdodau Goruchwylwyr Lleol eraill yn eu gwaith, fel a ganlyn:

- Bydd goruchwylwyr bydwagedd llawn amser o Swydd Efrog a Glannau Humber yn cysgodi goruchwylwyr bydwagedd llawn amser yng Nghymru (mis Gorffennaf 2015)
- Bydd goruchwylwyr bydwagedd yn cyflwyno goruchwyliaeth grŵp i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm o oruchwylwyr bydwagedd yn Rhydychen (mis Awst 2015)
- Bydd swyddog bydwreigiaeth yr AGLI a goruchwylwyr bydwagedd yn rhannu'r model ar gyfer goruchwyliaeth grŵp, a thrafod y broses a'r ddogfennaeth â goruchwylwyr bydwagedd Ucheldiroedd yr Alban trwy gynhadledd fideo (mis Awst 2015)

- Bydd goruchwylydd bydwragedd o Gymru yn cyflwyno'r achos dros newid, a chanlyniadau ar gyfer y model yng Nghynhadledd Awdurdodau Goruchwylio Lleol Gogledd Iwerddon (mis Medi 2015)

6.0 Materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn 2016-17 ac edrych i'r dyfodol

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf ar gyfer darpariaeth goruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl, tra bod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn mynd i'r afael â'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen. Mae'r AGLI yng Nghymru yn credu ei fod mewn sefyllfa gref i sicrhau y bydd ansawdd yr oruchwyliaeth yn parhau o fewn y fframwaith statudol presennol.

Mae gan yr AGLI yng Nghymru nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r swyddogaeth statudol, ac maent yn cynnwys:

- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU a'r Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth i bennu'r agenda proffesiynol strategol ar gyfer trosglwyddo goruchwyliaeth yn ystod y newid deddfwriaethol.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth ym mhob bwrdd iechyd, Bydwragedd Arweiniol Addysg a Choleg Brenhinol y Bydwragedd dryw'r cyfnod trawsnewid.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Rhwydwaith Mamolaeth i gefnogi'r broses o gyflenwi ymarfer bydwreigiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynnal proses gadarn ar gyfer cynllunio olyniaeth ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd ar ôl i addysg paratoi goruchwylwyr bydwragedd ddod i ben.
- Cyfranogiad llawn gyda thasglu'r Prif Swyddog Nyrsio i drawsnewid goruchwyliaeth bydwragedd i fodel sy'n cael ei arwain gan y cyflogwr, gyda ffocws ar ddatblygiad a chefnogi bydwreigiaeth.
- Paratoi i newid i'r model goruchwylio newydd, gyda chysylltiadau agosach i systemau a phrosesau llywodraethu wedi'u harwain gan gyflogaeth ar gyfer ymchwilio i ymarfer bydwreigiaeth a pharatoi cynlluniau adfer i barhau y tu hwnt i fis Ebrill 2017.
- Parhau i gynllunio a gweithio gyda thîm adolygwyr lleig yr AGLI ar gyfer cylch archwilio 2016-17, gyda phwyslais ar drawsnewid a pharatoi ar gyfer newid.
- Cynllunio ymagwedd safonol ar gyfer darparu darlithoedd Goruchwylwyr Bydwragedd o fewn y Sefydliad Addysg Cymeradwy ar gyfer bydwragedd dan hyfforddiant.
- Sicrhau darpariaeth barhaus o fynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth at Oruchwylwyr Bydwragedd.
- Sicrhau bod holl gofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n ymwneud â'r broses ymchwilio ac adfer yn cael eu harchifo yn Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amserlen ofynnol o 25 mlynedd.

Mae'r AGLI yn edrych ymlaen at weithio gyda'n holl gydweithwyr tuag at y nod o sicrhau dyfodol goruchwylio bydwagedd sy'n ystyrlon a chefnogol i fydwagedd, er mwyn hybu safonau proffesiynol a fydd yn gwella amddiffyniad y cyhoedd.

Dymuna'r AGLI ddiolch i bob rhanddeiliad am eu cymorth parhaus a pharhaol hyd yma.

Atodiad 1 – Cymhareb gyfwerth â goruchwilydd bydwragedd yng Nghymru

Y model traddodiadol

1,786 bydwaig = cymhareb o 1:15

116 goruchwilydd bydwragedd

116 goruchwilydd bydwragedd x 10.5 awr y mis = 1,218 awr o oruchwilyaeth y mis

Model newydd

1,950 awr goruchwilydd bydwragedd mewn blwyddyn o 52 wythnos – 26% wrth gefn = 1,443 awr o waith ar gyfer pob goruchwilydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn x 12.6 goruchwilydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn = 18,181 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 1,515 awr o oruchwilyaeth y mis

1,515 ÷ 10.5 awr = cyfwerth â 144 goruchwilydd bydwragedd

1,730 o bydwragedd ÷ 144 goruchwilydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

Tabl 1 – Cyfrifiadau Byrddau Iechyd Penodol wedi'u Diweddarau – Chwarter 4 2015-16

Bwrdd Iechyd	Bydwragedd	Goruchwilydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn	Oriau goruchwilydd bydwragedd y mis	Cymhareb wedi'i chymhwyso
Abertawe Bro Morgannwg	296	2.2 cyfwerth ag amser llawn	265 awr	1:12
Aneurin Bevan	314	2.4 cyfwerth ag amser llawn	289 awr	1:11
Betsi Cadwaladr	388	3.0 cyfwerth ag amser llawn	337 awr	1:11
Caerdydd a'r Fro	275	2 cyfwerth ag amser llawn	240 awr	1:12
Cwm Taf	200	1.2 cyfwerth ag amser llawn	144 awr	1:14
Hywel Dda	201	1.6 cyfwerth ag amser llawn	192 awr	1:11
Powys	44	0.2 cyfwerth ag amser llawn	48 awr	1:22

Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

1443 awr x 2.2 cyfwerth ag amser llawn = 3175 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 265 awr y mis
265 ÷ 10.5 = cyfwerth â 25 goruchwylydd bydwragedd
296 ÷ 25 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

Aneurin Bevan

1443 awr x 2.4 cyfwerth ag amser llawn = 3463 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 289 awr y mis
289 ÷ 10.5 = cyfwerth â 28 goruchwylydd bydwragedd
314 ÷ 28 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

Prifysgol Betsi Cadwaladr

1443 awr x 3 cyfwerth ag amser llawn = 4329 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 361 awr y mis
361 ÷ 10.5 = cyfwerth â 34 goruchwylydd bydwragedd
388 ÷ 34 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

Caerdydd a'r Fro

1443 awr x 2.0 cyfwerth ag amser llawn = 2886 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 240 awr y mis
240 ÷ 10.5 = cyfwerth â 23 goruchwylydd bydwragedd
275 ÷ 25 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

Cwm Taf

1443 awr x 1.2 cyfwerth ag amser llawn = 1732 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 144 awr y mis
144 ÷ 10.5 = cyfwerth â 14 goruchwylydd bydwragedd
200 ÷ 14 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:14

Hywel Dda

1443 awr x 1.6 cyfwerth ag amser llawn = 2308 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 192 awr y mis
192 ÷ 10.5 = cyfwerth â 18 goruchwylydd bydwragedd
201 ÷ 18 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

Powys

1443 awr x 0.2 cyfwerth ag amser llawn = 289 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 24 awr y mis
24 ÷ 10.5 = cyfwerth â 2 oruchwylydd bydwragedd
44 ÷ 2 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:22